COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, AR DDYDD MERCHER, 24 GORFFENNAF AM 16.00

Yn bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe | E L P Caparros |
| C Davies | P Davies | S Easterbrook | M J Evans |
| N Farr | J Gebbie | W R Goode | RM Granville |
| GH Haines | W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | JC Spanswick | T Thomas | E D Winstanley |

Yn bresennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | JPD Blundell | N Clarke | RJ Collins |
| C L C Davies | P Ford | S J Griffiths | D M Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M R John | RL Penhale-Thomas |
| R J Smith | I M Spiller | G Walter | A Wathan |
| AJ Williams | I Williams | MJ Williams | R Williams |
| T Wood | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, H Griffiths, D T Harrison, M L Hughes, M Jones, MJ Kearn, JH Tildesley MBE ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |

## 30. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau a ganlyn:-<br><br>Y Cynghorydd H Griffiths<br>Y Cynghorydd M Jones<br>Y Cynghorydd S Aspey<br>Y Cynghorydd M Kearn<br>Y Cynghorydd R Collins |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 31. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Gwnaed y datganiadau o fuddiant a ganlyn:-<br><br>Y Cynghorwyr F Bletsoe a S Bletsoe – buddiannau sy’n rhagfarnu yn eitem 4 ar yr Agenda, gan fod aelod teulu’n gweithio i Dŵr Cymru. Gadawodd y ddau Aelod y cyfarfod tra rhoddwyd ystyriaeth i’r eitem hon.<br><br>Y Cynghorydd E Winstanley – buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, gan y cyfeiriwyd at Neuadd y Dref Maesteg a’r Pafiliwn Mawr yn yr adroddiad, cyfleusterau a reolir gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yr oedd yn gyflogwr ar eu cyfer. Yn ogystal â hyn, datganodd fuddiant personol yn yr eitem hon fel Llywodraethwr Ysgol mewn dwy ysgol yn ei Ward. Datganwyd buddiant personol arall hefyd gan y Cynghorydd Winstanley, yn eitem 4 ar yr Agenda, fel aelod o gymdeithas y Newton Blue Tits Society.<br><br>Y Cynghorydd R Goode – buddiant sy’n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda, fel cadeirydd canolfan |

| | |
|---|---|
| | gymuned sy'n darparu lleoliad ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg yn Nantymoel, y cyfeirir ati yn yr adroddiad. Gadawodd y Cynghorydd Goode y cyfarfod tra rhoddwyd ystyriaeth i'r eitem hon.<br><br>Y Cynghorydd T Thomas – buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, gan ei fod wedi cyflwyno cais i ddod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, ac mae ganddo blentyn sy'n cael ei addysgu yn yr ysgol hefyd.<br><br>Y Cynghorydd Amanda Williams – buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgolion Cynradd Coety ac Ysgol Gyfun Brynteg.<br><br>Y Cynghorydd J Pratt – buddiant personol yn eitem 4 ar yr Agenda, fel aelod o Wylwyr y Glannau Ei Fawrhydi.<br><br>Y Cynghorydd I Williams – buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Brynteg. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 32. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn, fel cofnod gwir a chywir:-<br><br>13 Mawrth 2024<br>17 Ebrill 2024 |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 33. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gynrychiolwyr Dŵr Cymru

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cyflwyno cynrychiolwyr o Dŵr Cymru a oedd yn bresennol i wneud cyflwyniad ar y gwaith diweddaraf yr oeddent yn bwrw ymlaen ag ef a oedd yn |

| | |
|---|---|
| | ymwneud yn bennaf â pherfformiad o safbwynt ansawdd dŵr a gwaith stryd.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y prif themâu a ganlyn:-<br><br>1. Roedd y canlyniadau o ran Dŵr Nofio ar gyfer 2023 yn gadarnhaol yn y Fwrdeistref Sirol, ar wahân i'r rheiny ar gyfer Aberogwr.<br>2. Gorlifiant o ganlyniad i stormydd – Porthcawl ac asedau/ardaloedd arfordirol eraill (gan nodi bod ansawdd dŵr yn dirywio o ganlyniad i law trwm).<br>3. Ansawdd dŵr Rest Bay – Yn cael ei ystyried yn un o'r gorau yn Ewrop.<br>4. Ansawdd dŵr afon – Canolig y bennaf (er y dosbarthwyd rhai lleoliadau fel rhai da).<br>5. Heriau o ran ansawdd dŵr.<br>6. Digwyddiad llygredd Afon Ogwr.<br>7. Sut i weithio gyda'n gilydd i gyflawni gwell canlyniadau – Gyda CBS Pen-y-bont ar Ogwr, y RNLI a Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>8. Perfformiad o ran gwaith stryd yn ardal CBS Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau wedyn i gynrychiolwyr Dŵr Cymru, er enghraifft:<br><br>• Ydych chi'n monitro ansawdd dŵr nofio mewn 'amser real', a beth yw ansawdd y dŵr yn ein bae mwyaf yn Newton?<br>• Ar sail data Dŵr Cymru ei hun ym mis Tachwedd 2023, ymddengys yr amcangyfrifwyd y cafodd 21 biliwn litr o garthion crai heb eu trin eu gollwng o waith trin carthion Penybont. Sut mae hyn am gael ei leihau, a sut ydych am fuddsoddi i wella'r sefyllfa hon a'i heffaith ar ein hecosystemau, sy'n cynnwys bywyd gwyllt nad ydynt yn cael eu gweld mwyach yn ein hafonydd lleol?<br>• O ran ffynhonnell y llygredd yn Afon Ogwr mis Mai diwethaf, nodir nad yw Dŵr Cymru'n gwybod o le daeth hwn?<br>• Cafwyd tanwariant sylweddol yn nhermau isadeiledd ar hyd a lled y DU yn ddiweddar, felly rwy'n croesawu'r £96b sydd wedi'i addo dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn gwella'r sefyllfa hon. Does dim amheuaeth y bydd hyn yn cael effaith yn nhermau biliau dŵr uwch i gwsmeriaid. Faint fydd Uwch Swyddogion Dŵr Cymru'n ei dderbyn mewn taliadau bonws a phensiynau o fewn y 12 mis nesaf, wrth i aelwydydd weld y biliau hyn yn cynyddu?<br>• Yn nhermau gwaith stryd, bu rhaid i mi fy hun a nifer o aelodau o'm grŵp gysylltu â Phrif Swyddog Gweithredol (PSG) Dŵr Cymru'n uniongyrchol yn ystod y 6 – 8 mis diwethaf, ar sawl achlysur, ynghylch cwynion am waith ar y stryd. Rydw i wedi fy synnu felly bod y cyflwyniad yn cadarnhau na chafodd unrhyw gwynion o'r fath eu gwneud dros y cyfnod hwn, neu gyfnod hirach na hynny. |

| | |
|---|---|
| | Ydych chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r PSG er mwyn gweld faint o gwynion a wnaed yn uniongyrchol iddo ef/iddi hi? Hefyd, ydych chi wedi rhoi Cynlluniau Gwella Gwaith Stryd ar waith, fel y rheiny sydd gan Gyngor Caerfyrddin, neu'n ystyried gwneud hynny, er mwyn cyflawni gwelliannau trwy dderbyn llai o gwynion?<br>• Beth yw eich ymateb i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyflwyno rhybudd i Dŵr Cymru yng nghyswllt peidio â gwella ei berfformiad?<br>• Cafodd Dŵr Cymru ei gosbi'n llym y llynedd am adrodd ffigyrau/data anghywir ynghylch gollyngiadau dŵr. Allwch chi egluro beth ddigwyddodd yn y cyswllt hwn, a beth oedd y canlyniadau ar gyfer y sawl a oedd yn gyfrifol am y gwall hwn?<br>• Gan edrych ar ffynhonnell Afon Ogwr o Nantymoel i Aberogwr, ym mhle cafwyd y nifer fwyaf o ollyngiadau ac arllwysiadau amaethyddol?<br><br>Yn dilyn ymatebion i'r uchod a chwestiynau gan Aelodau eraill<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r cyflwyniad gan gynrychiolwyr Dŵr Cymru, fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

**34. Derbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Gwnaeth y Dirprwy Faer a'r Prif Weithredwr eu cyhoeddiadau (gweler y recordiad o'r cyfarfod isod am ragor o fanylion). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

35. **Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Gwnaeth yr Arweinydd ei gyhoeddiadau (gweler y recordiad o'r cyfarfod isod am ragor o fanylion). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 36. Alldro Cyllideb Refeniw 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, a'i bwrpas oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor o ran refeniw ar gyfer y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024.<br><br>Roedd Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn amlinellu'r pwyntiau allweddol a ganlyn:-<br><br>• Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023-24 oedd £342.334 miliwn. Yr alldro cyffredinol ar 31ain Mawrth 2024 oedd gorwariant net o £7.054 miliwn.<br>• Y prif reswm am y gorwariant cyffredinol o ran cyllideb y Cyngor yw'r pwysau parhaus o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac o ran Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, Digartrefedd a Ffioedd Cyfreithiol.<br>• Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2023-24 yn cynnwys cynigion i leihau'r gyllideb a oedd yn dod i gyfanswm o £2.608 miliwn. Ar 31ain Mawrth, cafwyd diffyg o ran y targed arbedion o £246,000, neu 9.43% o'r targed cyffredinol o ran lleihau'r gyllideb.<br>• Yn ystod 2023-24, roedd y Cyfarwyddiaethau wedi tynnu cyllid i lawr o gronfeydd penodol wrth gefn sydd wedi'u clustnodi. Y cyfanswm terfynol a dynnwyd i lawr o'r cronfeydd refeniw wrth gefn oedd £12.186 miliwn. Yn ogystal â hyn, roedd angen dadwneud £6.952 miliwn arall o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i ddarparu ar gyfer y gorwariant o fewn y flwyddyn, ynghyd â throsglwyddo £102,000 o Gronfa'r Cyngor.<br><br>Eglurodd yr Arweinydd bod trefniadau ar waith erbyn hyn i gynnal cyfarfodydd mewnol rheolaidd yn fisol, gan gynnwys cyfarfodydd ynghylch y gyllideb refeniw, cyfarfodydd ynghylch y rhaglen gyfalaf, ynghyd â byrddau monitro, er mwyn gallu monitro'r gyllideb yn drylwyr, gyda golwg ar osgoi, lle bynnag y bo modd, unrhyw achosion o orwariant o fewn Cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Roedd o wedi gofyn i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol sicrhau bod Swyddogion yn gweithio ar sail 'gwariant hanfodol yn unig', er mwyn arbed arian y Cyngor.<br><br>Gofynnwyd nifer o gwestiynau yng nghyswllt manylion yr adroddiad a'r wybodaeth ategol a gynhwyswyd yn ei atodiadau, er enghraifft, roedd yn cynnwys y canlynol:-<br><br>1. Dengys y ffigyrau yn Chwarter 1 bod gorwariant eisoes ar draws rhai Cyfarwyddiaethau, codwyd pryder ynghylch hyn gan ei fod mor gynnar yn ystod y flwyddyn ariannol, ac o ran pa mor gywir |

| | |
|---|---|
| | oedd y rhagdybiaethau gwariant ar draws Cyfarwyddiaethau CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Mynegwyd rhagor o bryder ynghylch y modd y gosodwyd ac y dyrannwyd y cyllidebau.<br>2. Nododd un Aelod bod y cronfeydd wrth gefn o ran refeniw yn is na 5%, ac felly roedd yn bwysig ailgodi lefelau'r rhain. Sut mae awdurdodau lleol cyfagos eraill yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn, h.y. ydyn nhw yn gweithio ar lefel is, neu ydyn nhw mewn sefyllfa ariannol iachach (neu, i'r gwrthwyneb, ddim yn iach) o ran y rhain. Mae angen i CBS Pen-y-bont ar Ogwr lobïo'r Llywodraeth Ganolog i ofyn am gynnydd o ran setliadau at y dyfodol, o ystyried y straen ariannol a brofir gan y Cyngor o ganlyniad i'r galwadau yn sgil gwasanaethau allweddol, chwyddiant, prisiau uwch am nwyddau a gwasanaethau ac ati.<br>3. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod wedi cyfarfod â'r Aelod Seneddol Jo Stevens, sef Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ddiweddar, a'i bod i fod i gyfarfod Huw Irranca Davies AC yn fuan, mewn perthynas â cheisio arian ychwanegol ar gyfer y Cyngor.<br>4. Roedd Aelod yn ystyried y dylai'r Awdurdod geisio bod yn gywirach wrth ragweld yr arian yr oedd ei angen arno wrth symud ymlaen, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn, er mwyn ceisio lleihau neu ddileu unrhyw orwariant o'r math a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddai hyn wedyn yn sicrhau nad oes gorddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i lenwi unrhyw fylchau o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau allweddol o ganlyniad i orwariant o'r fath.<br>5. Nododd un Aelod nad oedd rhai o'r gostyngiadau yn y gyllideb o safbwynt trafnidiaeth a phriffyrdd a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi'u cyflawni oherwydd blaenoriaethu gwaith yng nghyswllt cynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya sy'n effeithio rhai ffyrdd a gynhwysir o fewn y rhwydwaith priffyrdd. Nododd mai'r bwriad bellach oedd cyflawni'r rhain yn ystod yr hydref. Ond, er hynny, cododd rhywfaint o bryder na fyddai'r arbedion hyn yn cael eu cyflawni erbyn y dyddiad a dargedwyd, os oedd angen gwneud rhagor o waith sy'n ofynnol yng nghyswllt y cyfyngiadau cyflymder 20myw ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.<br>6. Ymddengys fod y gorwariant o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn rhai rhaglenni a phrosiectau, yn amrywio o 55k i £2.28m, oherwydd nifer uchel y lleoliadau a chynnydd o ran angen. Nodir hefyd, bod cyllideb ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer y Gwasanaethau Plant, unwaith eto ar gyfer mynd i'r afael â chynnydd o ran galwadau ar y gwasanaeth. Sut felly ydym ni am sgwario'r cylch? h.y. gwasanaeth sy'n seiliedig ar alw yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, fel y mae bob amser, o gymharu â'r realiti o orfod torri ein côt yn ôl y brethyn, o ran yr arian cyfyngedig sydd gennym a chronfeydd sy'n mynd yn fwy a mwy heriol hefyd.<br><br>Ymatebodd y Swyddogion i'r cwestiynau uchod cyn y<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn nodi'r sefyllfa o ran yr alldro refeniw |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 37. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2023-24 a Diweddariad Chwarter 1 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn darparu diweddariad i'r Cyngor ynghylch y sefyllfa o ran alldro'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24, gwariant chwarter 1 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2024-25 yn ôl y sefyllfa ar 30 Mehefin 2024, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 i 2033-34 a'r Dangosyddion Darbodus rhagamcanol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2024-25.<br><br>Roedd nifer o atodiadau i'r adroddiad, fel a ganlyn:-<br><br>• Atodiad A – sy'n dangos y cyllidebau a'r gwariant ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2023-24.<br><br>• Atodiad B – a oedd yn adlewyrchu'r cyllidebau, y gwariant hyd yma a'r gwariant rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl y sefyllfa ar 30 Mehefin 2024 ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2024-25.<br><br>• Atodiad C – a oedd yn nodi'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 i 2033-34.<br><br>• Atodiad D – a oedd yn darparu manylion y Dangosyddion Darbodus rhagamcanol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2024-25.<br><br>Yn dilyn cyflwyno pwyntiau allweddol yr adroddiad gan y Prif Weithredwr – Cyllid, Tai a Newid, gwahoddodd y Dirprwy Faer gwestiynau gan yr Aelodau, a oedd yn cynnwys y canlynol:-<br><br>1.) Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran beth oedd y swm a drosglwyddwyd ar gyfer gwaith uwchraddio Depo Waterton, cwestiynodd p'un a ddylid, yn lle hynny, rhoi'r arian ar gyfer hyn yn y Cronfeydd Cyfalaf;<br>2.) Holodd Aelod ynglŷn â faint o arian sy'n cael ei neilltuo o'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer costau cynlluniau lapio a lliwiau/logos ceir yng nghyswllt prynu 5 cerbyd gwastraff newydd, sy'n £4k fesul cerbyd. Ychwanegodd na fyddai'n fodlon cefnogi'r lefel hon o gost;<br>3.) Gofynnodd Aelod p'un ai bwriad y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol oedd ymgymryd ag |

| | |
|---|---|
| | asesiad agored a chadarn o'r hyn y gellid bwrw ymlaen ag ef yn realistig yn nhermau cynlluniau o fewn y Rhaglen Gyfalaf wrth symud ymlaen, gan ei fod yn amlwg, o safbwynt cyfyngiadau presennol ac at y dyfodol o ran cyllidebau, bod angen tocio'r rhaglen a'i threfnu ar sail blaenoriaeth;<br>4.) Nododd Aelod bod y Cyngor yn bwriadu prynu 5 cerbyd gwastraff newydd gyda chyllideb sydd heb ei hymrwymo o £906k, trwy drosglwyddiad a chynnig ar gyfer benthyciad. Gofynnodd faint ohonynt y gellid eu prynu heb drosglwyddiad a benthyciad. Aeth ymlaen i ofyn p'un a oedd yn angenrheidiol i brynu'r cerbydau ar hyn o bryd, neu a fyddai modd disgwyl tan rywbryd arall yn y dyfodol;<br>5.) Yn eu tro, eglurodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, o ran cerbydau dros 7.5 tunnell, bod rhaid arddangos manylion penodol arnynt neu byddai'r Cyngor yn torri deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan gynnwys y ddarpariaeth o gamerâu er diogelwch cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd;<br>6.) Nododd Aelod, o'r adroddiad, o ran pob cynllun gwaith yng nghyswllt prosiectau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a restrwyd yn yr adroddiad, eu bod yn nodi beth fyddai natur y gwaith hwn, ar wahân i'r rheiny a gynigir ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Felly, gofynnodd beth oedd manylion y gwaith arfaethedig hwn yn yr ysgol hon;<br>7.) Nododd Aelod, o ran adroddiadau tebyg yn y dyfodol, lle'n bosibl, dylent gynnwys costau alldro ar gyfer pob prosiect a gynigir ac a restrir o fewn y Rhaglen Gyfalaf. Nododd hefyd bod y Cyngor y llynedd wedi tanwario'n sylweddol o ran y Rhaglen Gyfalaf, o ystyried y cafwyd alldro o £31.8m o'r £69m a ddyrannwyd. Nododd ymhellach fod cynnig i wario tua £82m. Felly, cwestiynodd p'un a oedd cyllid digonol ar gael i CBS Pen-y-bont ar Ogwr mewn gwirionedd i gefnogi'r lefel hon o wariant.<br><br>Cadarnhaodd rhai Aelodau na allent gefnogi'r cynnig i wario tua £20k ar gynlluniau lapio neu liwiau/logos cerbydau gwastraff newydd y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt 2.) uchod. Felly, yn dilyn cynnig a eiliwyd yn briodol, cytunodd y Cyngor yn y diwedd i geisio lleihau hyn, o hynny a gynigiwyd, i hynny yr oedd yn ofynnol i'r Awdurdod ei ddarparu yn ôl y gyfraith, h.y. cynllun arwyddion a lliwiau/logos ac ati yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol i gyflawni gofynion safonol o ran iechyd a diogelwch. Felly ychwanegwyd at argymhellion yr adroddiad i adlewyrchu'r cynnig hwn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn:<br><br>• Nodi Alldro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2023-24 (Cyfeirir at hyn yn Atodiad A).<br>• Nodi'r diweddariad ar Chwarter 1 o ran Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2024-25, hyd at 30 Mehefin 2024 (yn Atodiad B).<br>• Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, gan nodi'r llithriant i 2024-25 o £17.082 miliwn, ac yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a chynlluniau newydd/ychwanegiadau o £2.614 |

| | |
|---|---|
| | miliwn i'r rhaglen gyfalaf (yn Atodiad C).<br>• Nodi'r Dangosyddion Darbodus rhagamcanol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2024-25 (yn Atodiad D).<br>• Nodi y dylai'r ffigwr a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer cerbydau casglu gwastraff, o ran 'cynllun lliwiau/logos' a 'lapio' gyda deunydd wedi'i argraffu, gael ei ddileu ac, yn lle hynny, y dylid nodi cost (i'w chadarnhau) sy'n darparu ar gyfer cyflawni dim ond yr hyn sy'n ofynnol yn gyfreithiol o dan ddeddfwriaeth y DU, gyda gweddill y swm a gynigiwyd yn y lle cyntaf yn cael ei ddyrannu'n ôl i gronfeydd y Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

## 38. Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Weithredwr – Cyllid, Tai a Newid adroddiad er mwyn:-<br><br>• Cydymffurfio â gofyniad Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod TM) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i gyflwyno adroddiad sy'n rhoi trosolwg o weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.<br>• Adrodd ynghylch Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys gwirioneddol 2023-24.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau o ran Rheoli'r Trysorlys ar gyfer cyfnod blynyddol 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024, bod gan y Cyngor ddyled hirdymor o £99.61 miliwn, ynghyd â benthyciadau tymor byr o £5 miliwn, £12.97 miliwn o ddyledion hirdymor eraill a gwerth £50 miliwn o fuddsoddiadau. Y sefyllfa gyffredinol o ran dyled net oedd £67.58 miliwn.<br><br>Y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer dyled oedd 4.78% (sy'n cynnwys benthyciadau tymor byr o £5 miliwn ond nad yw'n cynnwys benthyciadau Salix, sy'n ddi-log). Roedd y gyfradd yn 4.50% ar gyfer buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn.<br><br>O ran benthyciadau, mae gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd y gall ei reoli, o ran bod angen talu ei |

| | |
|---|---|
| | ddyled bresennol yn ôl ar amryw adegau dros y 30 mlynedd nesaf, gyda'r ad-daliad cyntaf i'w dalu ym mis Mawrth 2025.<br><br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a chyflwyno adroddiad yn erbyn y rheiny, a chynhwyswyd manylion hyn yn Atodiad A i'r adroddiad. Roedd y rhain yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau a gymeradwywyd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>Ychwanegodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid bod y Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â Chod Rheoli'r Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.<br><br>Gofynnodd Aelod p'un a oedd unrhyw hyblygrwydd o fewn cyllid y Cyngor ar gyfer sefyllfa lle gellid buddsoddi i ennill. Er enghraifft, gellid edrych ar unrhyw gynlluniau neu raglenni i brynu eiddo ac yna ei osod a chael incwm refeniw yn ôl yn syth ar gyfer buddsoddiad o'r fath. Enghraifft o hyn fyddai prynu eiddo ar gyfer pobl ddigartref, er mwyn arbed gwariant ar dai llety a gwestai.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid nad oedd unrhyw hyblygrwydd o fewn y Gyllideb Refeniw ar gyfer cynnig o'r fath, er y gallai'r Awdurdod ystyried llunio Achos Busnes pe byddai unrhyw gynnydd mewn incwm, neu arbedion neu wasanaethau mewnol yn fwy na digon i ddarparu ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenter fenthyca (yn ôl hynny a fenthycwyd). Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl i'r Cyngor fenthyca ar sail elwa'n fasnachol neu'n ariannol yn unig. Yn nhermau prynu eiddo i letya pobl ac arbed costau gwestai, pe bai hyn yn lleihau gwariant refeniw, yna gellid mynd ar drywydd hyn, er bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi arbed rhywfaint o arian Adran 106 a oedd ar gael i gynorthwyo i dalu'r costau llety hyn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn:<br><br>1. Nodi'r gweithgareddau o ran rheoli'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.<br>2. Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 yn erbyn y rheiny a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

39. **Derbyn y cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | 1. Y Cynghorydd G Walter i'r Arweinydd (ymateb wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r aelodau). Roedd y Cynghorydd Walter yn arfer ei hawl i ofyn cwestiwn atodol.<br><br>2. Y Cynghorydd I Williams i'r Aelod Cabinet – Adnoddau (ymateb wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r aelodau). Roedd y Cynghorydd Williams yn arfer ei hawl i ofyn cwestiwn atodol.<br><br>3. Y Cynghorydd T Thomas i'r Arweinydd (ymateb wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r aelodau). Roedd y Cynghorydd Thomas yn arfer ei hawl i ofyn cwestiwn atodol.<br><br>4. Y Cynghorydd M Williams i'r Arweinydd (ymateb wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r aelodau). Roedd y Cynghorydd Williams yn arfer ei hawl i ofyn cwestiwn atodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | Dim penderfyniad wedi'i wneud. |

**40. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys i'w trafod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

**41. Gwahardd y Cyhoedd**

| | | |
|---|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: | Nid oedd yr adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem ganlynol yn cael ei gyhoeddi, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio). |

| | |
|---|---|
| | Felly, yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNODD y Cyngor, yn unol â'r Ddeddf, i ystyried yr eitem hon yn breifat, ac y byddai'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024 |

42. **Costau Diswyddo ac Ymddeoliad Cynnar**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2024. |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon